**Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

**23 Mawrth 2022**

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 10.45am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg o Ionawr 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg o Ionawr 2022.

**4. Adroddiad Ariannol**
Roedd adroddiad y Swyddog Cyllido Allanol yn rhoi diweddariad ar y prosiectau oedd wedi derbyn grant SDF yn flaenorol ac yr oedd ymrwymiad ariannol yn dal i fod ar eu cyfer, ynghyd â rhestru'r prosiectau hynny oedd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Atgoffwyd yr Aelodau bod £100,000 wedi bod ar gael i'w ddosbarthu mewn grantiau gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y cyfnod 2021/22 a £90,000 yn ychwanegol o gronfa Llywodraeth Cymru Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy oedd yn golygu bod cyfanswm y grantiau oedd ar gael yn 2021/22 yn £190,000. Dywedwyd bod £132,533 o grant wedi'i ddyfarnu yn y flwyddyn gyfredol, oedd yn golygu bod £57,467 yn parhau i fod ar gael i'w ddyfarnu.

Gan ddiolch i'r swyddog am grynodeb defnyddiol o'r prosiectau, gofynnodd un Aelod am ddiweddariad ar gais SDF/2019/3 ar gyfer Argraffu Cynaliadwy gan fod dal gan y prosiect hwn £9,000 i'w hawlio. Dywedodd y swyddog ei bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r ymgeiswyr a chadarnhaodd bod y prosiect, yr oedd yn rhaid ei ddiwygio oherwydd y Pandemig, i'w gwblhau fis Mawrth 2022. Y gobaith oedd trefnu ymweliad â'r prosiect hwn i'r Aelodau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Hefyd gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch y prosiect COAST (Rhandiroedd a Drefnir gan y Gymuned ar gyfer Tenantiaid Solfach) nad oedd hyd yn hyn wedi hawlio unrhyw arian, a dywedodd y swyddog bod hawliad wedi'i gyflwyno yn ddiweddar ac y byddai'n cael ei dalu cyn hir.

**Nodwyd.**

**5. Eithrio’r cyhoedd**

Atgoffodd y swyddogion y Pwyllgor y gofynnwyd iddynt yn y cyfarfod diwethaf i ystyried a allai rhai o'r ceisiadau symlach oedd ger eu bron gael eu hystyried yn gyhoeddus. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai mater iddynt hwy oedd penderfynu ar hyn, ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r ceisiadau ac a gyflwynir iddynt ar y diwrnod. Fodd bynnag, o gofio bod pob cais yn cynnwys peth gwybodaeth bersonol a/neu fasnachol sensitif, byddai'n rhaid i’r Aelodau fod yn hynod ofalus i sicrhau na fyddai dim o'r wybodaeth hon yn cael ei datgelu i'r cyhoedd yn ystod y trafodaethau. Daeth yr Aelodau i'r casgliad na ellid gwarantu na fyddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, felly, er tegwch, cytunwyd y dylid trin pob cais yn yr un modd.

**Penderfynwyd** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**6. Y Ceisiadau i’w Hystyried**

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu pedwar cais a wnaed i’r gronfa ers y cyfarfod blaenorol, ac atgoffwyd yr Aelodau bod pedwar categori i geisiadau:

a. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol.
b. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth.
c. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff.
d. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

| Math o Brosiect | Cyfeirnod | Sefydliad | Y cyllid a geisir |
|---|---|---|---|
| A | SDF/032022/1 | Cwmni Buddiant Cymunedol Siop Lawrenni | 6,100 |
| A | SDF/032022/2 | Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol San Ishmael | 9,840 |
| D | SDF/032022/3 | Neuadd Bentref Llan-teg | 7,380 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **23,320** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau **penderfynwyd**:

(i) rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/032022/1- Cwmni Buddiant Cymunedol Siop Lawrenni: Goleuadau Solar Ffotofoltäig yn Siop Lawrenni.

b) SDF /032022/2 - Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol San Ishmael: Prosiect Cynaliadwyedd y Clwb Chwaraeon - annog yr ymgeiswyr hefyd i gael arddangosfa ddigidol yn y clwb, a'u hysbysu y gallai hyn gael ei ariannu 80%.

c) SDF /032022/3 - Neuadd Bentref a Chymdeithas Gymunedol Llan-teg: Goleuadau Solar Ffotofoltäig ym Maes Parcio Neuadd Bentref Llan-teg - dylai'r ymgeiswyr ofyn am gyngor swyddogion priodol Cyngor Sir Penfro a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ynghylch y math o oleuadau i'w gosod fel mai prin yw'r effaith ar fywyd gwyllt.

(ii) gofyn i'r Awdurdod gario'r cyllid oedd heb ei wario o £34,147 ymlaen i'r flwyddyn nesaf a'i ychwanegu at Gronfa SDF 2022/23.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022 heb eu diwygio. |